Fersiwn Hawdd ei Deall

# Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd Dysgu




**Nodiadau o'r nawfed cyfarfod ar 26 Mehefin 2024. Cafodd y cyfarfod ei gynnal ar Zoom.**



## Pobl a ddaeth i'r cyfarfod

- **Sioned Williams AS** – Aelod o'r Senedd, Cadeirydd
- **Sara Pickard** – Mencap Cymru, Cyd-Ysgrifennydd
- **Samantha Williams** – Anabledd Dysgu Cymru, Cyd-Ysgrifennydd
- **Liz Tucker** – Gwelliant Cymru
- **Simon Rose –** Anabledd Dysgu Cymru
- **Dawn Cavanagh** – Stolen Lives Wales
- **Sophie Hinksman** – Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Anabledd Dysgu
- **Lisa Morgan** - Dimensions
- **Lucy Hinksman** – Pobl yn Gyntaf Sir Benfro
- **David Abbott**
- **Aled Blake** – Anabledd Dysgu Cymru
- **Ellesse Mathias** – Prifysgol Abertawe
- **Andrea Meek** – Prifysgol Caerdydd

- **Lucy O'Leary** – Anabledd Dysgu Cymru
- **Wayne Crocker** – Mencap Cymru
- **James Radcliffe** – Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth
- **Chris Haines** – Caerphilly Observer
- **Joe Powell** – Pobl yn Gyntaf Cymru
- **Janis Griffiths** - Ffederasiwn Rhieni
- **Jessica Keeble** – Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan
- **Grace Coppock** – Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan
- **Elisa Vigna** – Prifysgol Caerdydd
- **Elmi Terjavjainen** - Achieve together / Ymgyrch 4 Change
- **Kai Jones** – Anabledd Dysgu Cymru
- **Kelly Stuart** – Pobl yn Gyntaf Cymru
- **Emily Morris** – Coleg Caerdydd a'r Fro
- **Julie Isaac-Evans** – TSW Training
- **Zoe Richards** – Anabledd Dysgu Cymru
- **Russ Kennedy** – Dimensions Cymru

## Gwybodaeth am y ddogfen yma




Fersiwn hawdd ei deall yw'r ddogfen yma. Mae'r geiriau a beth maen nhw'n ei feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.



Gallai'r geiriau mewn **ysgrifen las drwm** fod yn anodd eu deall. Mae eglurhad ar gyfer pob un o'r geiriau hyn wedi'i gynnwys mewn blwch o dan y gair. Gallwch weld beth yw ystyr yr holl eiriau **glas** ar **dudalen 17**.

## 1. Croeso a chyflwyniadau



Mae **Sioned Williams** yn Aelod o'r Senedd a hi yw **Cadeirydd** y Grŵp Trawsbleidiol.

**Cadeirydd** y grŵp yw'r person sy'n arwain y cyfarfodydd.

Mae **Sara Pickard** yn gweithio i Mencap Cymru a hi yw Cyd-Ysgrifenydd y Grŵp Trawsbleidiol.




Yr **Ysgrifennydd** yw'r person neu'r sefydliad sy'n gyfrifol am drefnu'r grŵp. Er enghraifft, mae'n trefnu cyfarfodydd ac yn dosbarthu agendâu.

**Cyd-ysgrifenyddion** yw pan fydd mwy nag un person yn rhannu rôl yr **ysgrifennydd**.

Gwnaeth Sioned a Sara groesawu pawb i'r cyfarfod.

## 2. Cyflwyniad am ymgyrch Bywydau Wedi'u Dwyn



Mae Dawn Cavanagh yn rhiant ac yn aelod o grŵp ymgyrchu **Bywydau Wedi'u Dwyn**.




Mae **Bywydau Wedi'u Dwyn** yn grŵp o deuluoedd yng Nghymru sy'n ymgyrchu i gael pobl ag anableddau dysgu allan o'r ysbyty ac i mewn i'w cymuned.



Soniodd Dawn am waith y grŵp a beth sydd wedi bod yn digwydd i'w meibion a'u merched sydd ag anabledd dysgu neu awtistiaeth.

Mae'r rhan fwyaf o'u meibion a'u merched wedi cael **eu dal o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl**.




Ystyr **cael eich dal o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl** yw bod doctoriaid wedi penderfynu bod gennych salwch meddwl a bod angen i chi fynd i'r ysbyty.

Os ydych chi'n **cael eich dal o dan y Ddeddf**, mae'r gyfraith yn dweud bod rhaid i chi fynd i'r ysbyty, hyd yn oed os dydych chi ddim eisiau. Neu os dydych chi ddim yn meddwl bod angen i chi fynd.

Dydych chi ddim yn cael dod allan o'r ysbyty nes bydd doctor yn penderfynu eich bod yn ddigon iach i wneud hynny.



Dim ond pobl sydd â salwch meddwl sydd i fod i gael eu **dal o dan y Ddeddf**.

Ond weithiau, mae pobl ag anabledd dysgu neu awtistiaeth **yn cael eu dal** achos dydyn nhw ddim yn cael y cymorth cywir lle maen nhw'n byw.



Mae Bywydau Wedi'u Dwyn yn credu bod gan bobl ag anableddau dysgu hawl i fyw yn eu cartref eu hunain yn y gymuned.




Ddylai pobl **ddim** cael eu cloi mewn ysbyty iechyd meddwl dim ond oherwydd nad ydyn nhw'n gallu cael y gofal a'r cymorth cywir lle maen nhw'n byw.




Weithiau, mae pobl yn **cael eu dal o dan y Ddeddf** heb i'r rheolau gael eu dilyn yn iawn.




Mae mab Dawn wedi bod yn byw mewn ysbytai ers 2022 oherwydd does dim unman iddo fyw yn ddiogel yn y gymuned.



Mae wedi **cael ei ddal yn yr ysbyty o dan y Ddeddf** lawer gwaith.

Ystyr **ataliaeth** yw dal person i lawr fel ei fod yn methu symud. Gallai hyn fod er mwyn atal y person rhag brifo ei hun neu bobl eraill. Mae'n gallu bod yn brofiad brawychus ac yn annifyr iawn.



Mae hefyd wedi cael ei **gadw ar wahân**.

Ystyr **cadw ar wahân** yw cloi person mewn ystafell ar ei ben ei hun. Gallai hyn fod er mwyn cadw'r person rhag brifo ei hun neu bobl eraill. Bydd staff fel arfer yn gwylio'r person drwy ffenestr neu fwlch yn y drws.




Mae hyn yn erbyn hawliau dynol pobl.



Cynhaliodd grŵp Stolen Lives brotest o'r enw **Cartrefi Nid Ysbytai** y tu allan i'r Senedd ym Mae Caerdydd ar 17 Ebrill 2024.



Roedden nhw'n protestio oherwydd eu bod yn credu'r canlynol:

- Dydy Llywodraeth Cymru ddim yn gwneud digon i gael pobl ag anabledd dysgu allan o ysbytai ac i mewn i gartrefi yn y gymuned.




- Mae pobl yn cael eu dal o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl heb i'r rheolau gael eu dilyn yn iawn.



- Mae gwasanaethau anabledd dysgu mewn rhai rhannau o Gymru yn dod yn rhan o wasanaethau iechyd meddwl. Mae hyn yn golygu bod rhai pobl ag anabledd dysgu yn peidio â chael y gofal a'r cymorth cywir.





Daeth mwy na 150 o bobl i'r brotest, gan gynnwys pobl ag anabledd dysgu, eu teuluoedd a'u cefnogwyr.



Mae Bywydau Wedi'u Dwyn eisiau i Lywodraeth Cymru wneud y canlynol:

- Dweud faint o bobl ag anabledd dysgu a phobl awtistig sydd mewn ysbytai.



- Egluro sut y bydd yn dod â phobl yn nes adref ac allan o'r ysbyty.



- Gwrando ar deuluoedd.




- Deall ddylai **dal pobl o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ddim** digwydd dim ond oherwydd nad yw'r cymorth cywir ar gael i bobl.



- Gweithio gyda phobl ag anabledd dysgu a phobl awtistig, eu teuluoedd a'u cefnogwyr i wella cymorth.



Gallwch lofnodi deiseb Bywydau Wedi'u Dwyn, Cartrefi Nid Ysbytai ar wefan y Senedd: https://deisebau.senedd.cymru/deisebau/246179.




Gallwch ddysgu mwy am Bywydau Wedi'u Dwyn a darllen eu maniffesto yn eu blog: https://stolenlives.blog/.

# 3. Stori Sophie




Soniodd Sophie Hinksman o Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan am ei phrofiad o fod mewn ysbyty iechyd meddwl.



Yn 2016, roedd Sophie yn sâl iawn oherwydd **iselder**.

Math o salwch meddwl yw **iselder**. Mae'n gallu gwneud i chi deimlo'n drist iawn neu'n bryderus y rhan fwyaf o'r amser. Efallai fyddwch chi ddim am wneud unrhyw beth na gweld neb.




Cafodd hi **ei dal o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl** a'i rhoi mewn ysbyty iechyd meddwl yn bell o'i chartref.



Doedd hi ddim yn deall beth oedd yn digwydd iddi hi.



Doedd hi ddim yn cael y cymorth cywir. Roedd yn brofiad brawychus ac annifyr iawn.




Ymunodd Sophie â phrotest Stolen Lives, Cartrefi Nid Ysbytai, y tu allan i’r Senedd ar 17 Ebrill 2024.




Roedd yn braf gweld cymaint o bobl ag anabledd dysgu a phobl awtistig yn y brotest.



Dywedodd Sophie fod angen cymorth ar bobl a'u teuluoedd i aros yn eu cartrefi eu hunain a pheidio â chael eu rhoi mewn ysbytai.



Byddai’n hoffi gweld newidiadau yng Nghymru yn y dyfodol:

- Gwell cymorth i bobl ag anabledd dysgu yn y gymuned.




- **Peidio** â rhoi gwasanaethau anabledd dysgu a gwasanaethau iechyd meddwl gyda'i gilydd. Dydyn nhw **ddim** yr un peth.

  Mae anabledd dysgu am oes. Ond mae salwch meddwl yn gallu mynd a dod.

  Yn lle hynny, mae angen gwneud yn siŵr bod y ddau wasanaeth yn deall sut i gefnogi rhywun ag anabledd dysgu sydd hefyd â salwch meddwl.



- Mwy o gartrefi gyda chymorth i bobl ag anabledd dysgu.



- Gwell cynllunio ar gyfer ble bydd pobl ag anabledd dysgu yn byw.

# 4. Cwestiynau a syniadau



Ar ôl y cyflwyniadau, gofynnodd rhai pobl gwestiynau, a rhannodd rhai eu syniadau.




Dywedodd Wayne Crocker o Mencap Cymru fod angen i ni gydweithio i ddod o hyd i ffyrdd o gael pobl allan o ysbytai ac atal pobl rhag mynd i'r ysbyty.



Mae angen inni rannu'r syniadau hyn â Llywodraeth Cymru, cynghorau lleol a byrddau iechyd.



Mae angen i iechyd a gofal cymdeithasol gydweithio â phobl ag anabledd dysgu, eu teuluoedd a'u cefnogwyr i wella gofal a chymorth.



Dywedodd Sioned wrth y grŵp fod Jayne Bryant, y Gweinidog Iechyd Meddwl a'r Blynyddoedd Cynnar wedi anfon llythyr ati am brotest Cartrefi Nid Ysbytai.




Dywedodd y llythyr fod y Gweinidog wedi gofyn i Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Anableddau Dysgu sefydlu grŵp Gorchwyl a Gorffen i edrych ar yr ymgyrch Bywydau Wedi'u Dwyn.



Dywedodd Sioned fod angen gwybod sut y gallwn ni fod yn rhan o'r gwaith hwn a faint o amser mae'n mynd i gymryd.



Dywedodd Joe Powell o Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan ei bod hefyd yn peri cryn bryder bod gwaith y Gweinidog Iechyd Meddwl a'r Blynyddoedd Cynnar yn cynnwys anabledd dysgu.



Mae pobl ag anabledd dysgu a'u teuluoedd wedi bod yn brwydro ers dros 40 mlynedd i'w gwneud yn glir bod anabledd dysgu **yn wahanol** i salwch meddwl.



Mae ychwanegu anabledd dysgu at waith y Gweinidog Iechyd Meddwl a'r Blynyddoedd Cynnar yn ei gwneud yn anoddach i bobl ddeall bod anabledd dysgu ac iechyd meddwl yn wahanol.




Mae rhai byrddau iechyd eisoes yn cau gwasanaethau anabledd dysgu arbennig ac yn rhoi pobl ag anabledd dysgu mewn gwasanaethau iechyd meddwl yn lle hynny.



Mae hyn yn golygu dydy pobl ddim yn cael y cymorth cywir a'i bod yn llawer anoddach eu cael yn ôl i'r gymuned.



Bydd Sioned yn parhau i ysgrifennu at y Gweinidog a chyfarfod â Llywodraeth Cymru ynghylch ymgyrch Bywydau Wedi'u Dwyni weld beth maen nhw'n ei wneud.

## 5. Unrhyw fater arall, a syniadau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol


Hawdd ei ddeall

Sut i wneud yn siŵr bod pobl gydag anabledd dysgu yn cael y tai a'r gefnogaeth gorau

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o 'Crynodeb Gweithredol: Datblygu arfer gwell a blaengar Y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol'

Mawrth 2019

CLILC • WLGA

Dywedodd Zoe Richards o Anabledd Dysgu Cymru eu bod yn edrych ar y canllawiau comisiynu a sut maen nhw'n cael eu defnyddio.




Mae Anabledd Dysgu Cymru yn anfon arolwg am y canllawiau comisiynu allan a bydd yn cynnal digwyddiadau i siarad amdano.


Hawdd ei ddeall

Sut i wneud yn siŵr bod pobl gydag anabledd dysgu yn cael y tai a'r gefnogaeth gorau

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o 'Crynodeb Gweithredol: Datblygu arfer gwell a blaengar Y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol'

Mawrth 2019

Gallwch ddarllen fersiwn hawdd ei deall o'r canllawiau comisiynu yma: https://www.ldw.org.uk/wp-content/uploads/2019/03/National-Commissioning-Board-housing-support-summary-doc-easy-read2.pdf (Saesneg yn unig)




Bydd cyfarfod nesaf y Grŵp Trawsbleidiol yn cael ei gynnal ar **24 Medi 2024**, rhwng 12.15 a 13.15 ar Zoom.




Bydd Sam Williams yn dosbarthu gwybodaeth am sut i gadw lle ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Bydd hyn ar gael hefyd ar wefan Anabledd Dysgu Cymru: https://www.ldw.org.uk/cy/project/grwp-trawsbleidiol-ar-anabledd-dsygu/.



Gofynnodd Sioned i aelodau'r grŵp e-bostio unrhyw syniadau am bethau i'w trafod mewn cyfarfodydd yn y dyfodol at Sara Pickard neu Sam Williams: SaraE.Pickard@mencap.org.uk neu samantha.williams@ldw.org.uk.




Diolchodd Sara a Sioned i bawb am ddod i'r cyfarfod.




Gallwch ddod o hyd i fersiynau hawdd eu darllen o holl agendâu'r grŵp trawsbleidiol, ynghyd â'r holl nodiadau ynghylch ei gyfarfodydd, yma: [https://www.ldw.org.uk/cy/project/grwp-trawsbleidiol-ar-anabledd-dsygu/](https://www.ldw.org.uk/cy/project/grwp-trawsbleidiol-ar-anabledd-dsygu/)

# Geiriau anodd

## Cadeirydd

Cadeirydd y grŵp yw'r person sy'n arwain y cyfarfodydd.

## Ysgrifennydd neu gyd-ysgrifenydd

Yr ysgrifennydd yw'r person neu'r sefydliad sy'n gyfrifol am drefnu'r grŵp. Er enghraifft, mae'n trefnu cyfarfodydd ac yn dosbarthu agendâu.

Cyd-ysgrifenyddion yw pan fydd mwy nag un person yn rhannu rôl yr ysgrifennydd.

## Cael eich dal o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl

Ystyr cael eich dal o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yw bod doctoriaid wedi penderfynu bod gennych salwch meddwl a bod angen i chi fynd i'r ysbyty.

Os ydych chi'n cael eich dal o dan y Ddeddf, mae'r gyfraith yn dweud bod rhaid i chi fynd i'r ysbyty, hyd yn oed os dydych chi ddim eisiau. Neu os dydych chi ddim yn meddwl bod angen i chi fynd.

Dydych chi ddim yn cael dod allan o'r ysbyty nes bydd doctor yn penderfynu eich bod yn ddigon iach i wneud hynny.

## Ataliaeth

Ystyr ataliaeth yw dal person i lawr fel ei fod yn methu symud. Gallai hyn fod er mwyn atal y person rhag brifo ei hun neu bobl eraill. Gall fod yn brofiad brawychus ac annifyr iawn.

## Cadw ar wahân

Ystyr cadw ar wahân yw cloi person mewn ystafell ar ei ben ei hun. Gallai hyn fod er mwyn cadw'r person rhag brifo ei hun neu bobl eraill. Bydd staff fel arfer yn gwylio'r person drwy ffenestr neu fwlch yn y drws.

## Iselder

Math o salwch meddwl yw iselder. Mae'n gallu gwneud i chi deimlo'n drist iawn neu'n bryderus y rhan fwyaf o'r amser. Efallai fyddwch chi ddim yn teimlo fel gwneud unrhyw beth na gweld neb.